

Cyfrifoldebau Penodol

1. Llywodraethu

- Mynd i gyfarfodydd y Bwrdd a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau'r Bwrdd.
- Bod yn aelod o is-bwyllgorau fel y cytunwyd gan y Bwrdd.
- Gwerthuso priodoldeb ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn gyson.
- Sicrhau bod polisiau'r sefydliad yn unol a deddfwriaeth gyfredol ac arferion da
- Cymeradwyo cyllideb y sefydliad a'i hadolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau cadernid ariannol y sefydliad.
- Sicrhau bod pob adroddiad a gyhoeddir yn adlewyrchu natur y sefydliad a'i sefyllfa ariannol yn gywir.
- Cydymffurfio â pholisi Gwrthdaro Buddiannau yr elusen.
- Penodi archwilwyr ariannol annibynnol a chymeradwyo cyfrifon archwilledig terfynol.

2. Arweinyddiaeth

- Datblygu a chymeradwyo gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad.
- Hyrwyddo enw da'r sefydliad.
- Darparu'r arweinyddiaeth strategol angenrheidiol i'r holl staff i gyflawni gwasanaeth o'r radd uchaf ar bob achlysur.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau cyhoeddus.

3. Strategaeth

- Asesu'r amgylchedd yn rheolaidd a datblygu amcanion strategol y sefydliad.
- Cytuno ar y cynllun strategol blynyddol sy'n rhoi'r amcanion strategol ar waith.
- Adolygu unrhyw newidiadau mawr sydd i'w gwneud i'r sefydliad, a chytuno arnynt.

4. Rheoli Perfformiad

- Monitro ac asesu canlyniadau'r sefydliad mewn perthynas â'r amcanion strategol, y gyllideb a'r cynllun busnes sydd wedi'u cytuno

5. Rheoli Risg

- Cadw trosolwg gadarn ar y prif risgiau sy'n wynebu'r elusen.
- Craffu ar systemau rheoli risg yr elusen.

6. Monitro perfformiad a thâl y tîm gweithredol

- Cefnogi a monitro perfformiad y Cyfarwyddwr Sefydolol a chadw trosolwg ar berfformiad y Tîm Rheoli
- Sefydlu a chynnal polisi tâl ar gyfer y Cyfarwyddwr Sefydolol a'r Tîm Rheoli

Yn ogystal a'r dyletswyddau uchod, dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio ei sgiliau arbenigol, ei wybodaeth a'i brofiad i gynorthwyo'r Bwrdd i wneud penderfyniadau doeth. Gall hyn olygu craffu ar adroddiadau a gaiff eu llunio gan y Bwrdd, arwain trafodaethau, canolbwyntio ar faterion allweddol, rhoi cyngor ac arweiniad ar fentrau newydd a materion eraill y bydd gan yr Ymddiriedolwr arbenigedd ynddo.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwr weithredu'n rhesymol ac yn bwyllog ym mhob mater sy'n ymwneud a'r elusen a dylai ystyried lles Theatr Spectacle Cyf ar bob achlysur.

Atebolrwydd

Gan mai'r Bwrdd sy'n gyfrifol ac yn atebol am lywodraethu a gweithrediad yr elusen, mae'n atebol i raddau gwahanol i randdeiliaid amrywiol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gwirfoddolwyr, aelodau, cyllidwyr, y Comisiwn Elusennau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Cyfle Cyfartal

Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac rydym am adlewyrchu'r cefndiroedd amrywiol a welir yn yr ardal yr ydym yn gweithio ynddi.

Er mwyn dod yn Ymddiriedolwr, dylai ymgeiswyr fodloni'r gofynion statudol a nodir isod :

Gall unrhyw berson 16 oed a throsodd weithredu fel Ymddiriedolwr cwmni elusennol ar yr amod nad yw wedi ei anghymwysu gan gyfraith, er bod Cyfansoddiad Theatr Spectacle Cyf yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr fod yn 18 oed neu hŷn. Mae Deddf Elusennau 2011 yn anghymwysu :

- pobl sydd ag euogfarnau anrheuliedig am droseddau sy'n cynnwys twyll neu anonestrwydd
- pobl sy'n fethdalwyr nas rhyddhawyd
- pobl y mae'r Comisiwn Elusennau neu'r llys yn Lloegr, yng Nghymru neu'r Alban, wedi eu hatal rhag bod yn Ymddiriedolwr elusen oherwydd camymddwyn, wedi'u hanghymwysu rhag bod yn gyfarwyddwyr cwmni o dan Ddeddf Anghymwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.
- sydd wedi methu â gwneud cyfamod (h.y. dod i drefniant) gyda'u credydwyr a heb gael eu rhyddhau.

Cyn gynted ac y bydd rhywun yn cael ei anghymwysu, er enghraifft, y diwrnod y caiff ei ganfod yn euog o drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd, caiff ei wahardd yn awtomatig rhag gweithredu fel Ymddiriedolwr. Mae'n drosedd i weithredu fel Ymddiriedolwr elusen yn dilyn gwaharddiad. Fodd bynnag, gall y Comisiwn Elusennol roi ildiad naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag elusen neu ddsbarth penodol o elusennau. Os ydych wedi eich cael yn euog o drosedd berthnasol neu'n dod yn fethdalwr ac yn dymuno aros yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwr, gallwch wneud cais i'r Comisiwn am ildiad. Gall unrhyw oedolyn nad yw

wedi'i anghymwyso drwy gyfraith, neu wedi'i wahardd gan erthyglau neu gymdeithas yr elusen, ddod yn Ymddiriedolwr (cyfarwyddwr) cwmni elusennol.

O dan Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986, gall y llys anghymhwysu pobl :

- sydd wedi eu cael yn euog o droseddau'n ymwneud â hyrwyddo, ffurfio, rheoli neu ddiddymiad cwmni.
- sydd wedi parhau i dorri deddfau cwmnïau o ran cofnodi cyfrifon a dogfennau eraill.
- sydd wedi eu cael yn euog o fasnachu twyllodrus neu dwyll.
- y mae eu hymddygiad fel Cyfarwyddwr wedi eu gwneud yn anaddas i fod ynghlwm â rheolaeth cwmni

Darllen Ychwanegol

I gael rhagor o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, darllenwch 'The essential trustee: what you need to know, what you need to do' gan y Comisiwn Elusennau.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/866947/CC3_feb20.pdf